e - gylchgrawn Addysg Grefyddol

Thema Rhifyn 15: **CREFYDD A GWLEIDYDDIAETH**

# Geirfa Allweddol

**Albert Einstein** - un o’r Ffisegwyr mwyaf erioed oedd yn gyfrifol am hollti’r atom.
**Anffyddiwr** - person sydd ddim yn credu fod Duw yn bodoli.
**Archesgob** - esgob o’r radd uchaf.
**Arddel** - cefnogi neu ddal safbwynt arbennig. *to espouse / to hold*
**Ayatollah** - arweinydd crefyddol uchel ei statws ymhlith Mwslimiaid Shia, yn enwedig yn Iran.
**Caplaniaethau** - lle mae gweinidog neu berson lleyg yn cynrychioli ffydd neu sefydliad ffydd yn gweithio mewn man gwaith e.e. ysgol, carchar, maes awyr, coleg gan gynnig help ysbrydol. *chaplaincy*
**Catholigion** - Cristnogion sy’n perthyn i Eglwys Gatholig Rhufain ac sy’n dilyn arweiniad y Pab.
**Ceidwadol** - yn tueddu i gadw at ffyrdd traddodiadol, nad yw’n hoffi newid. *Conservative*.
**Cyfansoddiad** - yr egwyddorion neu’r rheolau ffurfiol sy’n sail i drefn a chyfraith cymdeithas, talaith, cenedl neu wladwriaeth. *Constitution*.
**Cynhwysol** - (am gymdeithas) â lle i bawb, heb eithrio neb. *Inclusive*
**Cytûn** - grŵp o eglwysi amrywiol sy’n cydweithio â’i gilydd yn genedlaethol ac yn lleol. *Churches Together in Wales*.
**Dalai Lama** - Arweinydd ysbrydol pobl Tibet.
**Dietrich Bonhoeffer** - Gweinidog Lutheraidd Almaenaidd oedd yn gwrthwynebu Hitler.
**Dirywiad** - gostyngiad/disgyn yn is na’r safon a ddisgwylir.
**Dyneiddwyr** - pobl sydd yn credu nad oes angen dilyn Duw neu grefydd mewn bywyd. *humanists*
**Efengylwyr** - Cristnogion sy’n dilyn y Beibl air am air; grŵp niferus iawn yn Unol Daleithiau America a rhai gwledydd eraill.
**Erthylu** - gwaredu babi pan yn y groth. *abort*
**Esgob** - aelod uwch o'r clerigwyr Cristnogol, fel arfer â gofal esgobaeth a’r hawl i gyflwyno urddau sanctaidd.
**Fatican** - dinas-wladwriaeth wedi'i hamgylchynu gan Rufain, yr Eidal, yw pencadlys yr Eglwys Babyddol.
**Flossenburg** - gwersyll crynhoi Natsïaid a adeiladwyd ym mis Mai 1938.

**Galwad** - mae rhai pobl yn teimlo bod Duw yn eu 'galw' i wneud gwaith arbennig e.e. mae rhai yn teimlo galwad i fod yn weinidog/doctor/athro. *Calling, vocation*
**Goruchafiaeth wen** - y gred bod pobl wyn yn hil uwchraddol ac y dylent felly ddominyddu cymdeithas. *White supremacy*.
**goruchafiaeth wen** - y gred bod pobl wyn yn hil uwchraddol ac y dylent felly ddominyddu cymdeithas. *White supremacy*.
**Gweddus** - mewn ffordd dderbyniol neu barchus. *seemly*
**Gwladwriaeth** - llywodraeth gwlad a'i swyddogion. *State*.
**Heriol** - yn rhoi sialens. *challenging*
**Hil** - grŵp neu gasgliad o bobl sy'n rhannu'r un hanes, traddodiadau. *Race*.
**Martin Luther King** - gweinidog Americanaidd Affricanaidd gyda'r Bedyddwyr a ddaeth yn llefarydd ac arweinydd mwyaf gweladwy'r mudiad hawliau sifil o 1955 hyd at ei lofruddio ym 1968.
**Mohandas Gandhi** - Cyfreithiwr Indiaidd a chenedlaetholwr a ddefnyddiodd wrthwynebiad di-drais i arwain yr ymgyrch lwyddiannus dros annibyniaeth India rhag rheolaeth Prydain, ac yn ei dro ysbrydolodd symudiadau dros hawliau sifil a rhyddid ledled y byd.
**Muhammad Ali** - Bocsiwr proffesiynol Americanaidd.
**Natsïaid** - y syniadau a'r arferion sy'n gysylltiedig ag Adolf Hitler a'r Blaid Natsïaidd.
**Piwritaniaid** - Cristnogion a sefydlodd UDA er mwyn sicrhau rhyddid crefyddol.
**Pregethwr lleyg** - person (heb ei ordeinio fel gweinidog neu offeiriad) sy'n mynd o gwmpas capeli/eglwysi ar y Sul i arwain oedfa a rhoi neges sy'n seiliedig ar y Beibl. *lay preacher*
**Protestaniaid** - traddodiadau Cristnogol niferus a dyfodd o'r bymthegfed ganrif ymlaen.
**Rhyddfrydol** - am rywun neu rywbeth sy'n ymwneud â rhyddfrydiaeth, e.e. Y Blaid Ryddfrydol. *Liberal*.
**Rhyfel Fietnam** - gwrthdaro yn Fietnam, Laos, a Cambodia rhwng 1 Tachwedd, 1955 a chwymp Saigon ar 30 Ebrill, 1975.
**seciwlar** - Gellir ystyried unrhyw beth nad oes ganddo gyfeiriad penodol at grefydd, naill ai'n negyddol neu'n gadarnhaol, yn seciwlar. *Secular.*.
**Senedd** - y corff sy'n gyfrifol am wneud deddfau newydd.
**Theocratiaeth** - system lywodraethu lle mae crefyddwyr yn llywodraethu yn enw Duw neu Dduw.
**Trawsbleidiol** - rhywbeth sy'n cynnwys gwahanol bleidiau gwleidyddol nid dim ond un. *cross-party*
**Tŷ'r Arglwyddi** - Tŷ'r Arglwyddi yw ail siambr Senedd Prydain. Mae'n annibynnol, ac yn ategu Gwaith Tŷ'r Cyffredin.
**Wang Yi** - yw gweinidog yr Early Rain Covenant Church yn Chengdu.
**'Bible Belt'** - casgliad o daleithiau UDA sy'n cael eu hystyried yn grefyddol a cheidwadol.